**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**
**CC(3)-24-10 (p2) : 24 November 2010**

**Dyddiad:** **24 Tachwedd 2010**

**Amser:** **9:40am -10.20am**

**Teitl:** **Papur Tystiolaeth – Yr Adran Dreftadaeth Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2011-12**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ynghylch cynlluniau gwario'r Adran Dreftadaeth fel y'u hamlinellir o fewn y gyllideb ddrafft a gyhoeddir ar 17 Tachwedd.

2. Nodir y prif elfennau gwariant a dargedir o fewn pob maes o'r rhaglen wariant yn Atodiad A.

3. Yn unol â'r arferion a fabwysiadwyd y llynedd ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Prif Grŵp Gwariant bellach wedi'i rannu'n Feysydd newydd o'r Rhaglen Wariant, ac islaw hynny mae rhai o feysydd y rhaglen wariant wedi'u rhannu'n Gamau Gweithredu ar wahân. Yn Atodiad B, rhoddir dadansoddiad o'r Gyllideb Ddrafft fesul Maes Rhaglen Wariant a fesul Cam Gweithredu o fewn y Meysydd Rhaglen Gwariant.

## Cefndir a Chrynodeb

4. Gwnaed cynigion y gyllideb ddrafft yng nghyd-destun y gostyngiad yn y symiau sylfaen, yn sgîl setliad yr Adolygiad Cynhwysfawr o wariant. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 i 2013-14 fel a ganlyn:

| | **Cyllideb 2010-11 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2011-12 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2012-13 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2013-14 £'000** | **Newid ym mlwyddyn 3 o gymharu â 2010-11 £'000** | **% Newid £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 138,962 | 136,007 | 134,114 | 134,726 | -4,236 | -3 |
| Cyfalaf | 18,622 | 14,843 | 13,806 | 12,307 | -6,315 | -34 |
| | **157,584** | **150,850** | **147,920** | **147,033** | **-10,551** | **-7** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 2,058 | 2,265 | 2,490 | 2,740 | 682 | 33 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **159,642** | **153,115** | **150,410** | **149,773** | **-9,869** | **-6** |

5. Yn gryno, gwelir gostyngiad o £4.236 miliwn yn y cyllid refeniw ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Treftadaeth dros dair blynedd yr Ymarferiad Asesu Adnoddau. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 3%.

6. Mae'r cyllid cyfalaf yn gostwng £6.315 miliwn, i £12.307 miliwn – gostyngiad o 34%. Mae'r ffigurau hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod y Prif Grŵp Gwariant wedi cael dyraniadau cyfalaf ychwanegol yn 2010-11.

**Cynigion ar gyfer defnyddio'r cyllid gostyngedig**

7. Mae'r gyllideb Treftadaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r cyllid cyhoeddus a ddarperir i gefnogi'r celfyddydau, amgueddfeydd cenedlaethol a llyfrgelloedd, chwaraeon, yr iaith Gymraeg a'n treftadaeth adeiledig ac i hyrwyddo a chefnogi datblygiad Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr. Telir y rhan fwyaf o'r gyllideb Treftadaeth i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC). Telir cyllid hefyd i Croeso Cymru, Cadw a CyMAL. Mae fy nghynigion yn cymryd i ystyriaeth y trafodaethau a gynhaliwyd gyda phob un o'r cyrff hyn a'r asesiad manwl o'r pwysau a wynebir ganddynt. Mae pob un o'r rhaglenni a gyllidir o dan y Prif Grŵp Gwariant Treftadaeth yn dod â buddion pwysig i'r cyhoedd. Mae ein rhaglenni diwylliannol a'n treftadaeth adeiledig yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i ansawdd bywyd pobl. Maent hefyd yn cyfrannu at agenda cymdeithasol, addysgol ac economaidd y llywodraeth. Mae gan dwristiaeth gyfraniad hollbwysig i'w wneud i'n twf economaidd yn y dyfodol. Penderfynais felly ei bod yn bwysig parhau i gyllido pob un o'r prif raglenni cyn belled ag y bo'r cyllid yn caniatáu hynny.

8. Fy mlaenoriaeth yw amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen pryd bynnag y bo modd. Bydd y gostyngiad yng nghyllideb costau rhedeg pob un o'r CNLC yn uwch na'r gostyngiad yng nghyllidebau'r rhaglenni a gefnogir ganddynt. Er mwyn gallu parhau i gyflawni'r canlyniadau amrywiol sy'n nodweddu'r gyllideb Treftadaeth, mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd, fel Adran a thrwy'r sefydliadau a gyllidir gennym. Bydd yn bwysig ystyried i ba raddau y gellir cyflawni'r arbedion hyn drwy gynyddu'r cydweithio ar draws a rhwng y cyrff hyd fraich a gyllidir gennym.

9. Rwy'n awyddus hefyd i greu gwell synergedd rhwng y gwahanol raglenni o fewn y portffolio Treftadaeth. Mae Casgliad y Werin yn enghraifft ragorol o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fo sefydliadau'n cydweithio â'i gilydd. Partneriaeth ydyw rhwng Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Comisiwn Brenhinol. Cynyddir y cyllid ar gyfer y prosiect hwn i adlewyrchu ei bwysigrwydd strategol. Rwyf hefyd yn dymuno gweld camau gweithredu cryfach ac ehangach i gynyddu'r cyfleoedd a grëir gan dwristiaeth ddiwylliannol. Disgwylir hefyd i'r rhaglenni Celfyddydau a Chwaraeon gynyddu i'r eithaf eu cyfraniad i amrywiaeth eang o raglenni'r Llywodraeth, gan gynnwys meysydd megis iechyd, adfywio cymunedol ac addysg.

10. Rwyf wedi rhoi blaenoriaeth arbennig i'r gefnogaeth a roddir gan y Llywodraeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Bydd y cymorth hwn yn cynyddu 2% dros y cyfnod dan sylw. Cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi strategaeth ddiwygiedig y llywodraeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ei gwneud yn bosibl gweithredu rhai

o’r cynigion newydd pwysig sydd yn y strategaeth honno. Rwyf hefyd wedi gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu Comisiynydd newydd y Gymraeg. Gwarchodir y cymorth y mae’r Llywodraeth yn ei roi i’r diwydiant cyhoeddi Cymraeg, er mwyn galluogi’r Cyngor Llyfrau Cymraeg i barhau â’i waith o wella cystadleurwydd y diwydiant cyhoeddi.

11. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn hyrwyddo a marchnata twristiaeth gyda’r bwriad o sicrhau twf yr economi dwristiaeth a chymryd mantais ar atyniadau naturiol, treftadaeth a rhinweddau diwylliannol Cymru ynghyd â lletygarwch o ansawdd uchel a mynediad rhwydd. Rydym yn cydnabod yr angen i gystadlu â rhannau eraill o’r DU, Ewrop a’r Byd i ddenu ymwelwyr. Bydd twf yr economi dwristiaeth yn golygu bod swyddi’n cael eu creu a’u cynnal ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a sectorau mwy difreintiedig cymdeithas.

12. I ychwanegu momentwm at hyn ac i annog sefydliadau diwylliannol i ddatblygu ymatebion creadigol i’r sialens o gyllidebau gostyngol, trefnais Uwch-gynhadledd Ddiwylliannol ym mis Gorffennaf. Roedd cynrychiolwyr o’r holl CNLC a gefnogir gan yr Adran Dreftadaeth yn bresennol yn yr Uwch-gynhadledd, yn ogystal â chynrychiolwyr sefydliadau eraill ar draws y sector diwylliannol. Pwysleisiais yr angen i ddatblygu partneriaethau creadigol newydd a fydd yn hyrwyddo a chryfhau ein diwylliant yn ogystal â rhannu swyddogaethau cefn swyddfa i gynyddu effeithlonrwydd ymhellach a gwneud yn siŵr mai’r cyhoedd fydd yn elwa fwyaf ar bob punt o’r gwariant cyhoeddus ar dreftadaeth.

13. Mae’r prif newidiadau yn y gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod 2011-14 fel a ganlyn:

i. **Y Gronfa Cymru Ddwyieithog** – Rwy’n cynnig gwneud cynnydd o 2% yn y Gronfa Cymru Ddwyieithog. Bwriad hyn yw cefnogi’r broses o weithredu’r Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni. Defnyddir y cyllid hwn ynghyd â’r gyllideb costau rhedeg, sydd wedi’i rhewi, er mwyn helpu i greu’r swyddogaeth hon, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Cynulliad i Fesur y Gymraeg;

ii. **Comisiynydd y Gymraeg.** Rwyf hefyd yn cadw costau rhedeg Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar eu lefel gyfredol dros y cyfnod gwariant, er mwyn gallu sefydlu Comisiynydd y Gymraeg;

iii. **Twristiaeth.** Darperir cyllid ar gyfer Croeso Cymru er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o gyllid cyfatebol i allu parhau i ariannu’r 4 prosiect Ewropeaidd mawr y maent yn eu datblygu a’u cyflenwi dros y 3 blynedd nesaf. Mae’r cyllid ar gyfer gweithgareddau marchnata wedi cael blaenoriaeth hefyd;

**iv.** **Nofio am Ddim.** Yn unol ag ymrwymiad y Cabinet i sicrhau parhad buddion cyffredinol, bydd y cyllid a neilltuwyd ar gyfer nofio am ddim yn parhau ar yr un lefel dros y cyfnod gwariant. Fodd bynnag, bydd gostyngiad yng nghyllideb gyffredinol Chwaraeon Cymru;

v. **Casgliad y Werin** – Mae’r prosiect arloesol hwn yn strategol bwysig i’r sector treftadaeth. I gydnabod hynny, caiff y cyllid ei gynyddu o £250K i £300K y flwyddyn;

vi. **Costau rhedeg CNLC** - Rwy'n cynnig gostyngiad o 4% y flwyddyn yng nghostau rhedeg CNLC dros dair blynedd y cyfnod gwariant. Golyga hyn y bydd rhaid i bob un o’r sefydliadau gael hyd i lefelau heriol o arbedion effeithlonrwydd yn eu swyddogaethau gweinyddol a chynorthwyol.

**Cyfalaf**

14. Yn sgîl y gostyngiad mawr mewn cyllid cyfalaf, mae angen asesu blaenoriaethau’n fanwl a gwneud rhai gostyngiadau sylweddol mewn cyllidebau cyfalaf. Rwyf wedi ceisio cynnal ein buddsoddiad yn y gwaith o gynnal a chadw’r ystâd treftadaeth lle bynnag yr oedd modd, gan gynnwys cyfrifoldebau statudol Cadw dros henebion.

15. Mae’r gyllideb cyfalaf o 2011 ymlaen yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth. Bydd buddsoddi cyfalaf mewn BBaCh twristiaeth drwy’r Cynllun hwn yn helpu i gynnal y lefelau cyflogaeth ledled Cymru gan gynnwys yr ardaloedd sydd wedi’u hamddifadu’n economaidd.

16.Rwyf wedi rhoi blaenoriaeth i un prosiect cyfalaf newydd pwysig. Byddwn yn dyrannu £4 miliwn o gyllid cyfalaf i brosiect Amgueddfa Cymru i ailwampio Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd strategol y prosiect hwn i Gymru. Mae’r cyllid hwn yn ychwanegol at y £1 miliwn yr wyf yn ei ddarparu i gefnogi’r gwaith paratoadol hanfodol sy’n digwydd y flwyddyn hon. Bwriedir i’r prosiect hwn drawsnewid prif atyniad twristiaeth Cymru er mwyn gallu derbyn 1 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn a sicrhau dros 300 o swyddi.

17.O ganlyniad i’r newid o £6.315m yn y dyraniad cyfalaf dros y cyfnod cynllunio, blaenoriaethwyd cynlluniau ar draws yr adran.

18. Isod, rhestrir y prif newidiadau yn y cyllid cyfalaf:

i. **Sain Ffagan**– Dyrennir £4 miliwn i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan er mwyn cyfrannu at y gwaith o drawsnewid y safle yn amgueddfa o safon fyd-eang ac yn borth i safleoedd diwylliannol a threftadaeth ledled Cymru.

ii. **Cyllidebau Cyfalaf ar gyfer CNLC** – Caiff cyllidebau cynnal a chadw eu torri’n sylweddol dros y cyfnod hwn. Bwriedir hefyd gwneud toriadau yn y grantiau fydd ar gael i’r Amgueddfa Genedlaethol a’r Llyfrgell Genedlaethol i gynnal a gwella’u casgliadau cenedlaethol.

**Cadw** – Mae cyllideb Cadw’n cael ei ddiogelu rhywfaint i gydnabod y cynnydd yng nghostau cyfalaf cynnal a chadw y 127 heneb sydd yng ngofal y wladwriaeth.

**iv.** Grantiau **CyMAL** – bydd angen torri'r buddsoddiadau mewn ailwampio llyfrgelloedd cyhoeddus. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi £3 miliwn y flwyddyn mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Erbyn diwedd y cyfnod gwariant bydd y ffigur hwn wedi mynd i lawr i £1.5 miliwn.

**v. Twristiaeth –** Bydd y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn cael ei leihau dros y cyfnod yn unol â lefel y gostyngiad cyffredinol i'r Prif Grŵp Gwariant.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

19. Mae hwn yn cynrychioli'r ddarpariaeth gyfrifyddol sydd ei hangen i adlewyrchu'r newid yn niffygion cynlluniau pensiwn Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y dyraniadau'n adlewyrchu cyfanswm y diffyg. Mae'r newid hwn yn dilyn cyfarwyddeb ddiweddaraf y Trysorlys.

.

**Atodiad A**

## Meysydd Gwariant y Rhaglen – y prif elfennau gwariant

### Hyrwyddo defnydd ehangach o'r Iaith Gymraeg drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill

Mae'r Maes Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Cyngor Llyfrau Cymraeg a Chronfa Cymru Ddwyieithog.

### Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd

Mae'r Maes Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yng Nghymru, gan gynnwys cyllid i Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer Cymal: cynlluniau grant Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru.

### Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf drwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill

Mae'r Maes Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, gan gynnwys cyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a Gardd fotaneg Genedlaethol Cymru.

### Cyflenwi rhaglenni effeithiol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol

Mae'r Maes Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Dringo'n Uwch ac yn darparu cyllid ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru.

### Cadw, diogelu, cynnal a hyrwyddo'r mynediad at yr amgylchedd Hanesyddol

Mae'r maes gweithredu hwn yn cyllido gwariant Cadw (gwasanaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

### Twristiaeth

Mae'r Maes Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo a marchnata Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr o fewn y DU a thramor, ac yn annog ymdriniaeth gyson o dwristiaeth ar draws Cymru gyfan drwy'r pedair Partneriaeth Dwristiaeth Ranbarthol.